Bwletin y Farchnad HCC

Chwefror 2025

> Yn ddiweddar, mae CThEF wedi rhyddhau ffigurau masnach y DU ar gyfer mis Rhagfyr 2024. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y ffigurau masnach ar gyfer 2024 yn fwy manwl.
>
> **Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**

Yn ôl data Defra, cynyddodd cynhyrchiant cig eidion y DU yn 2024 o 4%, tra bod cynhyrchiant cig defaid wedi gostwng o 7%. Cafodd y cynnydd mewn cynhyrchiant cig eidion ei sbarduno gan gynnydd o 3% yng nghyfanswm y trwybwn, tra bod nifer y defaid a'r ŵyn wedi'u prosesu wedi gostwng o 8% o'i gymharu â 2023. Mae'r newidiadau hyn mewn cynhyrchiant domestig wedi effeithio'n uniongyrchol ar argaeledd cig i'w allforio, gan gyfrannu at newidiadau nodedig yn neinameg masnach cig coch yn 2024.

CIG EIDION

Yn ôl data CThEF, fe wnaeth y Deyrnas Unedig **allforio** bron i 113,000 tunnell yn ystod 2024, gan nodi cynnydd o 9% flwyddyn ar flwyddyn. Fe wnaeth cyfanswm *gwerth* yr allforion hyn dyfu o 16%, gan gyrraedd £567.2 miliwn. Sbardunwyd y twf hwn i raddau helaeth gan fwy o ddanfoniadau i Ffrainc, Canada, a'r Iseldiroedd. Iwerddon oedd prif gyrchfan cig eidion y DU o hyd, ond gostyngodd ei chyfran o 34% yn 2023 i 29%, gyda gostyngiad o 7% mewn mewnforion i 32,500 tunnell. Er gwaethaf hyn, mae cynnydd o 4% mewn cynhyrchiant cig eidion yn awgrymu bod digon o gyflenwad i ateb y galw allforio.

Fe wnaeth **mewnforion** cig eidion y DU godi hefyd yn ystod y flwyddyn, gyda *chyfeintiau* wedi cynyddu o 8% i 240,700 tunnell. Fe wnaeth *gwerth* y mewnforion hyn gynyddu ar y flwyddyn o 11%, gan gyrraedd £1.4 biliwn. Iwerddon oedd y prif gyflenwr o hyd, gan gynyddu ei chyfran o fewnforion i 77% (i fyny o 73% yn y flwyddyn flaenorol). Cynyddodd cyfaint cig eidion Iwerddon a fewnforiwyd 13%, a sbarduno'r cynnydd cyffredinol mewn tunellau. Gwelodd Iwythi o Seland Newydd ac Awstralia dwf hefyd, ac roeddent yn cyfrif am bron i 50% o gyfeintiau o wledydd y tu allan i'r UE.

CIG DEFAID

Yn 2024, cyfanswm **allforion** cig defaid y DU oedd tua 79,500 tunnell, i lawr 6% ers 2023. Fodd bynnag, cododd cyfanswm *gwerth* yr allforion hyn o 7%, gan gyrraedd £582.8 miliwn, yn ôl pob tebyg oherwydd prisiau giât y fferm cryf a brofwyd ledled y DU, ac yn fyd-eang. Mae'n debyg bod cyfeintiau yn llai o ganlyniad i gyflenwadau domestig tynn, gyda'r cynhyrchiad yn gostwng 7% yn y DU i 266,500 tunnell. Er gwaethaf hyn, roedd lefelau allforio yn 2024 yn uwch na 2022 a 2021 ill dau. Gostyngodd allforion i'r UE a marchnadoedd y tu allan i'r UE, gydag Iwerddon a'r Almaen yn gweld y gostyngiadau mwyaf mewn tunelli.



Cynyddodd **mewnforion** cig defaid y DU o 40% ar y flwyddyn, gan gyrraedd 67,880 tunnell - y lefel uchaf ers 2018. Cafodd hyn ei sbarduno'n bennaf gan fwy o fewnforion o Seland Newydd (i fyny 14,300 tunnell) ac Awstralia (i fyny 6,500 tunnell), sydd bellach yn cyfrif am 86% o fewnforion cig defaid y DU, i fyny o 78% yn 2023. Mae'r cynnydd mewn mewnforion yn adlewyrchu prisiau is o Hemisffer y De ynghyd â'r Cytundebau Masnach Rydd newydd, cyflenwad domestig tynn, a'r lefel prisiau pwysau marw uchaf erioed yn y DU. Mae mewnforion wedi tyfu er mwyn ateb y galw - sydd wedi cyrraedd uchafbwyntiau yn ystod gwyliau crefyddol allweddol

PORC

Cwympodd **allforion** porc y DU o 6% yn 2024, cyfanswm o 122,150 tunnell, gyda'r *gwerth* yn gostwng 13% i £243.5 miliwn, er gwaethaf cynnydd o 4% mewn cynhyrchiant cig moch domestig. Yn y cyfamser,

Cododd **mewnforion** porc y DU o 2% mewn cyfaint, gan gyrraedd 339,450 tunnell, er bod y gwerth wedi gostwng 1%. Cyfrannodd Iwerddon a Gwlad Belg at y cynnydd, gydag Iwerddon yn allforio 9,800 tunnell ychwanegol a Gwlad Belg 6,970 tunnell yn fwy. Fodd bynnag, gostyngodd llwythi o'r Iseldiroedd bron i 9,000 tunnell.

I nodi: mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at gig coch ffres ac wedi'i rewi, sy'n eithrio cynhyrchion wedi'u prosesu ac offal.

Masnach yng Nghymru; yn 2024, cyrhaeddodd cyfanswm gwerth allforion cig coch (ffres/rhewllyd) o Gymru £277.4 miliwn - 9% yn uwch nag yn 2023. Amcangyfrifwyd bod allforion cig eidion 9% yn uwch gan gyrraedd bron i 16,000 tunnell, gyda'u gwerth hefyd yn codi 16%. Ar gyfer cig defaid, arweiniodd cyfyngiadau cyflenwad domestig at ostyngiad o 7% mewn cyfrolau allforio, sydd bellach yn gyfanswm o 27,200 tunnell. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, cynyddodd gwerth allforion cig defaid o 6%, wedi'i sbarduno gan brisiau giât y fferm cryfach.

ffynhonnell: Amcangyfrifon HCC yn seiliedig ar ddata CThEM

Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?

Mae'r canlyniadau cymysg mewn masnach yn pwyntio at geisio cadw'r ddysgl yn wastad rhwng galw cynyddol yn ein marchnadoedd allforio a chyfyngiadau cynhyrchu domestig. Mae'r cynnydd mewn allforion cig eidion yn adlewyrchu diddordeb byd-eang cadarn ar gyfer ein cig eidion, tra bod cynnydd mewnforion cig defaid (yn enwedig o Seland Newydd ac Awstralia) yn awgrymu y gallai'r diwydiant wynebu mwy o gystadleuaeth a phwysau prisio wrth symud ymlaen. Gallai hyn, ynghyd â chyflenwadau domestig tynnach, ysgogi penderfyniadau mwy strategol ynghylch strategaethau cynhyrchu ac allforio yn y dyfodol.

GWARTHEG

Prisiau – wythnos yn gorffen 22 Chwefror

Roedd prisiau pwysau marw cyfartalog Cymru a Lloegr ar gyfer llywio yn sefyll ar **585.9c/kg**. Roedd hyn:

- + 15.1c ar yr wythnos flaenorol,
- 93.8c yn uwch na'r lefelau blwyddyn-gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 581.5c/kg (+14.2c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 567.9c/kg (+19.0c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 421.6c/kg (+17.9c ar yr wythnos).

Trwybwn - Ionawr 2025

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 249,400 pen – cynnydd o 4% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 177,800 pen - i fyny 2% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych -2%, heffrod +6%, a theirw ifanc +2%*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 342.7kg (-2.7kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 65,700 pen - cynnydd o 11% ar y flwyddyn.





DEFAID

Prisiau – diwedd yr wythnos 22 Chwefror

Cyfartaledd pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain oedd **731.2c/kg**. Roedd hyn:

- - 4.8c ar yr wythnos flaenorol
- + 99.4c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 178.2c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24): 553.0p/kg).

Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 34,000 pen. Roedd hyn:

- - 4% ers yr wythnos flaenorol

Trwybwn - Ionawr 2025

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.0 miliwn pen – i lawr 7% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 923,200 pen – i lawr 6% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas cig oen ar gyfartaledd = 20.2kg (tebyg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 109,300 pen – i lawr 15% ar y flwyddyn.



MOCH

Prisiau – diwedd yr wythnos 15 Chwefror

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **208.4c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.7c ar yr wythnos flaenorol,
- - 4.7c o'i gymharu â lefelau blwyddyn-gynharach,
- 32.9c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24): 175.5c/kg).

**Noder: nid yw'r APP ar gael ar hyn o bryd gan nad yw'r data yn bodloni'r trothwyon dilysu. Nid yw'r SPP (sy'n defnyddio ffynonellau data gwahanol) yn cael ei effeithio.*

Trwybwn - Ionawr 2025

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 886,000 pen – cynnydd o 4% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 867,600 pen – cynnydd o 5% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch glân ar gyfartaledd = 91.0kg (+0.4kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 18,400 pen – i lawr 11% ar y flwyddyn.